

ARDAL CYFFORDD LLANDUDNO – CYFARFODYDD CYHOEDDUS GWERTHUSIAD DEWISIADAU

Ysgol:	Ysgol Maelgwn
Lleoliad:	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno
Dyddiad:	29 Mehefin 2011
Yn bresennol:	13
Awdur:	Emma Bayliss
Swyddogion yn bresennol:	Geraint James, Dilwyn Price, Derwyn Owen, Keith R. Evans, Damian Hughes, Steve Lea, Mark Dring, Danielle Edwards, Bethan Lewis, Gwyn Roberts
Cyfieithu:	Glain Jones
Aelodau Lleol:	Cyng. Mike Priestley, Cyng. Meirion Hughes a Cyng. Sue Shotter
Aelod Cabinet:	Cyng. Wyn E. Jones

1. CROESO A CHYFLWYNIAD

Croesawodd Dilwyn Price bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod ac eglurodd ei bwrpas. Cyflwynodd drosolwg byr o'r cynnydd wnaed ar y cynllun ers cynnal y cyfarfod rhanddeiliaid a enwebwyd yng Nghyffordd Llandudno ym Medi 2010.

Dywedwyd y byddai cyflwyniad ar y Gwerthusiad Dewisiadau ar gyfer Cyffordd Llandudno yn ystod y cyfarfod. Bydd penderfyniad terfynol ar y dewis i'w weithredu yng Nghyffordd Llandudno yn cael ei gymryd gan y Cabinet mewn cyfarfod a drefnwyd ar gyfer diwedd Medi 2011.

Mynegwyd y byddai'r amrywiol asesiadau effaith ar y dewisiadau ar gyfer moderneiddio ysgolion yng Nghyffordd Llandudno yn cael eu cyflwyno ac y gellir gofyn cwestiynau yn ystod y cyflwyniad.

2. CEFNDIR I'R CYNLLUN A CHYNNYDD HYD YMA

Cyflwynodd Geraint James y cefndir i'r cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd a chyfeiriodd at bedwar prif yrrwr y cynllun. Y gyrrwr pwysicaf ar gyfer moderneiddio ysgolion yng Nghyffordd Llandudno oedd 'Adeiladau addas i'r pwrpas'.

Atgoffwyd pawb ynglŷn â'r cynnydd wnaed hyd yma ar y cynllun a bod Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy ynghyd â'r Cynllun Gweithredu wedi eu mabwysiadu gan y Cabinet yn Hydref 2010.

3. CANFYDDIADAU GWERTHUSIAD DEWISIADAU CYFFORDD LLANDUDNO

Roedd pawb oedd yn bresennol wedi cael copi o ddogfen Gwerthusiad Dewisiadau Cyffordd Llandudno. Y pedwar prif ddewis ar gyfer moderneiddio ysgolion Cyffordd Llandudno yw:

- Dewis 1a a 2a – Ysgol ardal ar safle *Albini House*
- Dewis 1b a 2b – Ysgol ardal ar safle *Esgyryn*
- Dewis 3 – Cadw'r ysgolion presennol
- Dewis 4 – Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli

(a = Dewis a arweinir gan y gyrrwr, b = dewis a ddymunir gan yr ardal)

Dywedwyd nad oedd y cyfarfod yn cael ei gynnal i benderfynu ar ddewis mwyaf priodol ond yn hytrach yn gyfle i rannu'r asesiadau effaith ar gyfer y 4 dewis a chael adborth a sylwadau.

Dadansodwyd y dewisiadau trwy 5 gwahanol asesiad effaith, gweithdai i blant, adolygiad o gostau bob dewis a'r effaith ar leoedd i ddisgyblion.

O ran canlyniadau'r dadansoddiad, cyfeiriwyd at y gweithdai a gynhaliwyd gyda phlant blwyddyn 4 ym mhob ysgol. Cynhaliwyd gweithgareddau i geisio cael y plant i nodi pa ddewis oedd y gorau ganddynt o'r 4 a gyflwynwyd. Canlyniad gweithdai'r plant oedd mai eu hoff ddewis oedd '**Dewis 3 – cadw'r ysgolion presennol**'.

Yr asesiadau effaith a grëwyd ac a gynhaliwyd gyda phob dewis oedd: Asesiad Effaith Cludiant, Asesiad Effaith Cymunedol, Asesiad Effaith Iaith, Asesiad Effaith Adeiladau, Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Asesiad Effaith Lleoedd Disgyblion.

Gofynnwyd i bawb gyfeirio at dudalen 20 y ddogfen Gwerthusiad Dewisiadau a oedd yn rhoi crynodeb o'r dewisiadau, eu dadansoddiad a'r sgoriau terfynol. Eglurwyd y pwysadau a'r sgoriau a roddwyd. Hefyd eglurwyd y gwahanol gostau mewn perthynas â phob dewis o fewn y grynodeb a nodwyd mai'r dewis a sgoriodd uchaf oedd '**Dewis 1a a 2a - Ysgol Ardal ar safle Albini House**'.

4. ASESIAID EFFAITH CLUDIANT

Soniodd Geraint James am y ffactorau a ystyriwyd wrth ddatblygu a chynnal yr Asesiad Effaith Cludiant. Roedd y rhain yn cynnwys yr effaith ar amseroedd teithio a'r effaith ar niferoedd disgyblion yn cael cludiant a chost hyn.

Ar ôl cynnal yr Asesiadau Effaith Cludiant gyda phob dewis, byddai Dewis 1a a 2b (Albini House), Dewis 3 a Dewis 4 yn golygu dim newid a byddai Dewis 1b a 2b yn golygu effaith rhywfaint yn waeth ar amseroedd teithio yn arbennig wrth gerdded. Nodwyd fod amseroedd teithio i bob un o'r safleoedd newydd arfaethedig wedi eu mesur gan swyddogion o'r Adran Addysg ynghyd ag Aelodau Lleol.

Cwestiynau ac Atebion:

- C:** Mae rhai plant yn beicio i'r ysgol. A yw hyn wedi ei ystyried yn yr Asesiad Effaith Cludiant gan y bydd yn effeithio ar 'Lwybrau Diogel i Ysgolion' pe byddai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu?
- A:** Diolch am y sylw, bydd llwybrau beicio yn cael eu hystyried beth bynnag yw'r dewis a bydd y pwynt hwn yn cael ei amlygu yng nghyfarfod y Cabinet pan gyflwynir yr holl wybodaeth i gefnogi eu penderfyniad.

5. ASESIAID EFFAITH CYMUNEDOL

Cyfeiriodd Geraint James at y 5 mesur allweddol a ystyriwyd o fewn yr Asesiad Effaith Cymunedol: plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol; gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol; cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol; cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgaredd a gynhelir ar dir yr ysgol; a'r effaith ar fusnesau lleol a chyflogaeth.

Bu i'r asesiad hefyd gymryd ystyriaeth o adborth o'r cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus blaenorol, sef mai safle Albini House fyddai'r dewis a ddymunir ar gyfer ysgol ardal.

Ar ôl cynnal Asesiad Effaith Cymunedol ar gyfer bob un o'r dewisiadau, nodwyd y byddai Dewis 1a a 2a (Albini House) yn creu rhywfaint o welliant ar gyfer y gymuned. Dewis 1b a 2b (Esgyryn) a Dewis 4 yn golygu effaith rhwyfaint yn waeth ac ni fyddai Dewis 3 yn cael unrhyw effaith.

Nodwyd fod y fethodoleg y tu ôl i bob asesiad effaith a'r data tystiolaeth manwl ar gael ar y wefan.

Cwestiynau ac Atebion:

- C:** Mewn perthynas ag Albini House, mae llawer o dai preswyl o amgylch y safle ac ni fyddai mynediad i draffig at y safle yn hawdd iawn. Gallai achosi tagfeydd a llawer o sŵn i'r preswylwyr. A yw'r mater hwn wedi ei ystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Cymunedol?
- A:** Mae'r mater hwn wedi ei ystyried a gellir ei drafod ymhellach o dan yr Asesiad Effaith Adeiladau.

6. ASESIAID EFFAITH IAITH

Cyflwynodd Gwyn Roberts ganfyddiadau'r asesiad effaith iaith. Roedd methodoleg newydd wedi ei greu i asesu effaith bob dewis ar yr iaith ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Roedd penaeithiad y ddwy ysgol hefyd wedi cymeradwyo'r fethodoleg. Roedd 12 maes allweddol wedi eu hystyried o fewn yr asesiad effaith hwn.

Ar ôl cynnal yr asesiad effaith iaith gyda phob un o'r dewisiadau, nodwyd y byddai ysgol ardal newydd ar un safle yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg ymhellach trwy ddod a'r ddwy ysgol ynghyd. Dywedwyd y byddai'r holl athrawon presennol yn y ddwy ysgol yn gallu darparu addysg ddwyieithog.

Dywedwyd y byddai Dewis 1a a 2a (Albini House) a Dewis 2a a 2b (Esgyryn) yn golygu gwelliant ar gyfer yr iaith. Byddai Dewis 3 a 4 yn arwain at ddim newid.

Nodwyd un mater rhywfaint yn negyddol mewn perthynas â chael ysgol ardal ar un safle sef yr effaith ar yr iaith a ddefnyddir ar y buarth. Fodd bynnag byddai gweithgareddau yn cael eu trefnu i geisio atal hyn.

Cwestiynau ac Atebion:

- C:** Mewn cyfarfodydd blaenorol, dywedwyd pe byddai ysgol ardal ar un safle y byddai'r gymuned dal eisiau sicrhau y cynigir ffrwd addysg Gymraeg. A fedrwyd ein sicrhau y byddai hyn yn digwydd pe byddai ysgol ardal yn cael ei hadeiladu ar un safle?
- A:** Yn sicr byddai ffrwd addysg Gymraeg pe adeiladir ysgol ardal ar un safle a chefnogir hyn gan y ffaith y gall pob athro yn y ddwy ysgol addysgu'n ddwyieithog.

7. ASESIAID EFFAITH ADEILADAU

Cyflwynodd Derwyn Owen ganfyddiadau'r asesiad effaith adeiladau a nododd fod rhestr fawr o safleoedd posib ar gyfer ysgol ardal wedi ei chwtdogi i gynnwys Albini House ac Esgyryn gan mai'r safleoedd hyn oedd yr unig rai oedd yn ddigon mawr ar

gyfer ysgol addas i'r pwrpas. Fodd bynnag atgoffwyd pawb nad oedd yr awdurdod yn berchen y safleoedd hyn.

Cyfeiriwyd at gostau bob dewis yng nghrynodeb cyffredinol y 'Gwerthusiad Dewisiadau' a nodwyd fod costau cyfalaf, costau refeniw parhaus a'r costau gwerth presennol net wedi eu cyfrifo ar gyfer bob dewis. Roedd y costau a nodir yn y grynodeb wedi eu hystyried dros gylch bywyd o 30 mlynedd. O ran y meini prawf di-ariannol fyddai'n cyfrannu at sgôr asesiad effaith bob dewis, nodwyd fod ffactorau gan gynnwys cydymffurfio â'r Bwletin Adeiladau, materion cynllunio, capasiti safle, cydymffurfiaeth BREEAM, hyblygrwydd ac ehangu yn y dyfodol a mynediad i'r safle wedi eu hystyried.

Trafodwyd bob dewis mewn perthynas â'r asesiad effaith a dywedwyd y byddai Maelgwn yn safle anodd i'w ailddatblygu a gosod cyfleusterau newydd. Pe byddai'r safle hwn yn cael ei gadw, byddai angen datblygu maes parcio ym Mryn Eglwys er mwyn iddo fod yn addas i'r pwrpas. Mae gan Albini House ac Esgyryn rinweddau da mewn perthynas â'r asesiad effaith. Mae gan y ddau gapasiti safle da, hyblygrwydd yn y dyfodol a gan y byddent yn ysgolion newydd gallent ymgorffori bob agwedd ar gynnalwydd gan arwain at ostyngiad mewn ôl troed carbon.

Yn dilyn yr asesiad effaith, byddai Dewis 1a a 2a (Albini House) a Dewisiadau 1b a 2b (Esgyryn) yn arwain at welliant yn adeiladau'r ysgolion. Pe gweithredir Dewisiadau 3 neu 4, byddai rhywfaint o welliant yn adeiladau'r ysgol gan y byddent yn parhau i gael buddsoddiad. Nodwyd mai'r dewis drytaf oedd Dewis 3 a'r rhataf oedd Dewis 1b a 2b h.y. safle Esgyryn. Safle Albini House oedd yr ail isaf o ran cost.

Soniodd Geraint James am drethi ar gyfer adeiladau ysgol. Nodwyd os bydd yr Awdurdod yn buddsoddi mewn gwella adeilad ysgol, byddai'r trethi yn cynyddu. Mae hyn yn fater cenedlaethol ac yn cael ei drafod yn genedlaethol.

Cwestiynau ac Atebion:

- C:** Os mai safle Esgyryn yw'r rhataf o ran cost, pam fod y gost fesul disgybl yn llai ar gyfer safle Albini?
- A:** Nid yw'r gost fesul disgybl yn seiliedig ar gostau cyfalaf yr ysgol neu'r costau NPV. Mae'n seiliedig ar gyllideb yr ysgol sydd yn ei dro yn seiliedig ar nifer y disgyblion.
- C:** Pe baech yn adeiladu ysgol ardal ar Albini House neu Esgyryn, beth fyddai'n digwydd i'r safleoedd presennol yn Maelgwn a Nant y Coed? A fyddai gwerthiant y safleoedd hyn y cyfrannu at ddatblygu safle newydd?
- A:** Byddai hyn yn rhywbeth y byddai angen i'r Cabinet ei ystyried gan nad yw'r incwm a geir o werthiant ased addysg yn cael ei roi yn awtomatig yn ôl i'r Gwasanaethau Addysg. Mae hyn yn rhywbeth, fodd bynnag, y gallai'r Cabinet ei gymeradwyo fel rhan o unrhyw benderfyniad am ysgolion yng Nghyffordd Llandudno. Ffordd arall o ran ariannu unrhyw ysgol newydd fyddai trwy fenthycia darvoudus. Ar 15 Gorffennaf, bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu bob Awdurdod Lleol yng Nghymru faint o arian cyfalaf sydd ar gael i gefnogi'r rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif. Credir fod tua £300 miliwn ar gael ar draws Cymru ond mae cyfanswm y cynigion yn £1.5 biliwn. Felly rhaid i Gonwy fynd trwy'r gwerthusiad dewisiadau mewn amrywiol ardaloedd er mwyn bod yn barod i gynnig ar gyfer yr arian.

- C:** Os gwerthir safleoedd Maelgwn a Nant y Coed ar gyfer tai, byddai hyn yn cynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol ardal. A ydych wedi ystyried hyn a beth yw capasiti arfaethedig ysgol ardal?
- A:** Capasiti arfaethedig ysgol ardal un ai ar safle Albini House neu Esgyryn yw 420 o ddisgyblion. Mae rhagamcaniadau tai wedi eu hystyried wrth edrych ar gapasiti unrhyw ysgol newydd mewn ardal. Gellir ehangu'r ddau safle i gymryd mwy o blant pe bai angen yn y dyfodol.
- C:** Os byddai ysgol ardal newydd yn gallu cymryd hyd at 420 o ddisgyblion, mae hyn yn codi pryderon ynglŷn â maint dosbarthiadau. Faint o ddisgyblion fyddai ym mhob dosbarth?
- A:** Y mwyaf fyddai mewn dosbarth mewn unrhyw ysgol yw 30 a hyn yw'r uchafswm.
- C:** Os oes dau safle ar gael ar gyfer ysgol ardal, pam na allwn gael dwy ysgol newydd ar y ddau safle newydd? Gallai Maelgwn gael safle newydd yn Albini House a gallai Nant y Coed gael safle newydd yn Esgyryn. Byddai hyn yn sicrhau y byddai gan rieni ddewis o ran ble i anfon eu plant a byddai'r plant yn aros o fewn eu cymunedau.
- A:** Nid yw'r cynnig hwn yn bosibl oherwydd goblygiadau ariannol. Byddai cost fawr yn gysylltiedig â phrynu'r ddau safle ac yna gorfod cynnig am arian i adeiladu dwy ysgol newydd addas i'r pwrpas am gost fawr. Mae'r dewis i gael dwy ysgol addas i'r pwrpas dal ar gael o dan Dewis 3 ond byddant yn aros ar y ddau safle sy'n bodoli.
- C:** Ni ddylai'r gost ariannol fod o bwys, y plant sy'n bwysig.
- A:** Mae eich cynnig wedi ei nodi a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet pan fyddant yn gwneud eu penderfyniad. Rhaid ystyried manteision ariannol a di-ariannol o ran bob dewis.
- C:** Ai'r 4 dewis yw'r unig ddewisiadau sydd ar gael?
- A:** Roedd rhestr gychwynnol o ddewisiadau posibl ac archwiliwyd y rhain. Y pedwar dewis a gyflwynwyd i chi yw'r unig ddewisiadau ymarferol sydd ar gael ar gyfer yr ardal.
- C:** O ran costau ariannol bob dewis, a yw'r costau yn cymryd ystyriaeth o brynu'r tir ar gyfer y safleoedd newydd?
- A:** Ydy.
- C:** O ran cydymffurfiaeth BREEAM, a ellir cael 'cydymffurfiaeth ragorol' o dan unrhyw un o'r dewisiadau?
- A:** Mae cael 'rhagorol' yn bosibl o dan Dewis 1a a 2a a Dewis 1b a 2b. Y gorau a ellir ei gyflawni o dan Dewis 3 yw 'da'.
- C:** Dylai'r ddogfen Gwerthusiad Dewisiadau amlygu'n gliriach y byddai ysgol ardal ar safle newydd yn cynnwys ffrwd addysg cyfrwng Cymraeg.
- A:** Diolch am y sylw hwn. Yn sicr byddai gan ysgol newydd ddwy ffrwd fel y maent ar hyn o bryd yn Ysgol Maelgwn. Byddai 6 dosbarth ym mhob ffrwd.
- C:** Beth yw ystyr 'Addas i'r Pwrpas'?
- A:** Mae 'Addas i'r Pwrpas' yn ystyried y safonau a osodwyd ar gyfer ysgolion yn yr amrywiol Fwletinau Adeiladau.
- C:** Nid yw ffabrig adeilad Ysgol Maelgwn yn dda iawn ac ni fu llawer o atgyweirio a chynnal am gyfnod hir. Os na ellir cynnal yr hen adeilad ysgol, sut y gellir sicrhau y byddech yn cynnal unrhyw adeilad newydd?
- A:** Bydd y costau cynnal a chadw ar adeilad newydd yn llawer llai na'r hyn sydd ei angen ar gyfer yr hen safleoedd.
- C:** Pam nad yw Ysgol Maelgwn a Nant y Coed wedi eu cynnal i safon dderbyniol?
- A:** Mae gennym record dda o atgyweirio a chynnal ein hysgolion yng Nghonwy mewn cymhariaeth ag awdurdodau eraill. Ysgol Maelgwn a Nant y Coed yw ein blaenoriaeth uchaf ar hyn o bryd o ran angen buddsoddiad cyfalaf a dyna pam fod ardal Cyffordd Llandudno wedi ei blaenoriaethu o fewn y cynllun moderneiddio ysgolion a rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yr Awdurdod.
- C:** A fyddai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu o dan y model CAP?
- A:** Na, ni fyddai'r model CAP yn cael ei ddefnyddio. Byddem yn rhoi cynnig am arian gan Lywodraeth Cymru i adeiladu neu fuddsoddi yn yr ysgol a byddem

yn ei pherchen. Llauer o ddiolch am yr holl gwestiynau, cyflwynir yr adborth hwn i'r Cabinet.

8. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Nododd Geraint James nad oedd canlyniad yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gynnwys yng nghrynodeb y Gwerthusiad Dewisiadau gan ei fod yn amlinellu canlyniad yr Asesiadau Effaith eraill. Defnyddiwyd yr asesiad hwn i sicrhau nad yw unrhyw un o'r dewisiadau yn effeithio'n anffafriol ar un grŵp dros y llall. Ar ôl i'r Cabinet wneud y penderfyniad ar y dewis i'w weithredu, byddai'r asesiad effaith hwn yn cael ei ail-gwblhau.

9. LLEOEDD DISGYBLION

Rhoddwyd trosolwg o effaith bob dewis ar leoedd disgyblion. Nodwyd na fyddai gweithredu unrhyw un o'r 4 dewis yng Nghyffordd Llandudno yn cael effaith arwyddocaol ar leoedd disgyblion a lleoedd gwag.

10. TROSOLWG A CHAMAU NESAF

Cyfeiriwyd pawb at grynodeb y Gwerthusiad Dewisiadau ar dudalen 20. O ran y sgôr ar gyfer bob dewis, roedd Dewis 1a a 2a (Albini House) yn sgorio uchaf ac felly dyma fyddai'r dewis a argymhellir i'r Cabinet.

Cwestiynau ac Atebion:

- C:** Mae Asesiad Effaith Adeiladau ar gael, mae angen cynnwys mwy o wybodaeth ar fynediad i bob un o'r safleoedd newydd.
- A:** Diolch i chi am y pwynt hwn. Mae mwy o fanylion ar y we sy'n dangos y fethodoleg a'r data cefnogol ar gyfer yr Asesiad Effaith Adeiladau ac yn dangos sut y cymrwyd mynediad safle i ystyriaeth ar gyfer bob dewis.
- C:** Pa mor hir fydd hi nes bod ysgol newydd yn cael ei hadeiladu os mai dyna'r dewis a ddewisir?
- A:** Mae'n anodd rhoi ateb ar hyn o bryd. Bydd yn dibynnu a fydd y cynnig ar gyfer arian ar gyfer y dewis yn llwyddiannus ac os yw'r cyfalaf ar gael gan Lywodraeth Cymru. Bydd atgyweirio a chynnal yr ysgolion sy'n bodoli yn parhau nes daw arian ar gael. Bydd angen i'r Cabinet gymryd hyn i ystyriaeth wrth benderfynu ar y dewis.
- C:** Cyng. M. Priestley - roeddwn yn bryderus ynghylch cynnal y digwyddiadau cyhoeddus hyn gan y gallent godi disgwyliadau a chreu rhywfaint o bryder. Fodd bynnag, roedd yn bwysig eu cynnal gan bod angen i ni fynd trwy'r broses hon a chael dewis er mwyn cynnig am unrhyw arian sydd ar gael. Rwy'n falch ein bod wedi trafod y cyllid ac y deallir pa mor hir y gall gymryd i gael yr arian i wneud unrhyw newidiadau. Mae hefyd yn braf gwybod y bydd y rhaglen atgyweirio a chynnal yn parhau yn y cyfamser.
- A:** Diolch i'r Cyng. Priestley am y sylwadau hynny. O ran atgyweirio a chynnal, mae gennym ddyletswydd i'r ysgolion fel y maent ar hyn o bryd.
- C:** Os yw'r broses hon yn parhau i gymryd amser hir ac yn y diwedd rydych yn cynnig am arian i adeiladu ysgol newydd ar un o'r safleoedd, pa sicrwydd sydd gennych y bydd un o'r safleoedd dal ar gael i chi ei brynu? Mae tai yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd ar safle Albini House.
- A:** Mae lle dal ar gael ar safle Albini House ar gyfer ysgol ardal. Rydym yn mynd trwy'r gwerthusiad dewisiadau yn awr i sicrhau ein bod yn barod i gynnig ar gyfer unrhyw arian sy'n dod ar gael.

- C:** Mae gennyf bryderon am atgyweirio a chynnal yr ysgolion presennol a rhaid canfod arian i wneud y gwaith hwn nes y gellir sicrhau arian ar gyfer y dewis a ddewisir. A allwch sicrhau y bydd hyn yn parhau?
- A:** Mae'n anffodus nad yw adeiladau'r ysgolion o safon uchel. Bydd y rhaglen atgyweirio a chynnal yn parhau nes y daw arian ar gael i adeiladu ysgol newydd neu fuddsoddi yn y safleoedd presennol i'w gwneud yn addas i'r pwrpas. Mae Cyffordd Llandudno wedi ei blaenoriaethu er mwyn cael arian cyn gynted ag y daw ar gael.

Dyweddodd Dilwyn Price y byddai cyfleoedd i gael 'dweud eich dweud' nes bod y ddogfen Gwerthuso Dewisiadau yn mynd i'r Cabinet ar ddiwedd Medi 2011. Roedd y cyfeiriad e-bost ar gefn y ddogfen Gwerthusiad Dewisiadau yn ogystal â chyfeiriad gwefan.

Nodwyd y camau nesaf yn y broses sef mynd a'r ddogfen i'r Cabinet iddynt wneud penderfyniad ar y dewis i'w gymryd ymlaen. Ar ôl gwneud penderfyniad, bydd dogfen gynnig yn cael ei chynhyrchu a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru am gyllid.

Diolchwyd i bawb oed yn bresennol am eu hamser ac fe'u hatgoffwyd mai dechrau'r broses yw hyn a bod y swyddogion o'r awdurdod bob amser ar gael i ateb cwestiynau.